Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Dyffryn Conwy
# Ffordd Nebo
# Llanrwst
# Conwy
# LL26 0SD

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**



**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 16/05/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Dyffryn Conwy yn ysgol gyfun gymunedol naturiol ddwyieithog ar gyfer disgyblion 11-18 oed a gynhelir gan Awdurdod Addysg Leol Sir Conwy. Mae ynddi 703 o ddisgyblion, gan gynnwys 149 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu tref Llanrwst a Dyffryn Conwy ac mae 16 o ysgolion cynradd yn y dalgylch. Daw disgyblion o ardaloedd sy'n gymharol ffyniannus, ac ardaloedd sydd dan anfantais economaidd. Mae 8.6% o'r disgyblion yn hawlio prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigwr hwn yn is na'r canran cenedlaethol o 17.7%. Mae bron pob un o'r disgyblion yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn derbyn cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu lawn. Mae dau y cant o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol ychwanegol yr ysgol. Mae hyn yn is na'r canran cenedlaethol. Yn ogystal, mae 13% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol ychwanegol, sydd yn is na'r canran cenedlaethol. Daw 61% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan un neu ddau riant a 39% o gartrefi lle mae Saesneg yn brif iaith. I lawer o'r disgyblion, y Gymraeg yw prif iaith yr addysgu ac maent yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf.

Mae'r uwch dîm rheoli cyfan yn gymharol newydd yn eu swyddi. Penodwyd y pennaeth ym Medi 2010. Dechreuodd un dirprwy ei swydd ym Medi 2011, ail ddirprwy ym Medi 2012 ac un pennaeth cynorthwyol yn Chwefror 2013.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Dyffryn Conwy yn 2013-2014 yw £5,039. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Conwy yw £5,039 a'r lleiafswm yw £3,259. Mae Ysgol Dyffryn Conwy yn y safle cyntaf o'r 8 ysgol uwchradd yng Nghonwy o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae Ysgol Dyffryn Conwy yn ysgol dda oherwydd:

- mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni safonau uchel mewn llawer o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4;
- mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol sydd yn cyflwyno profiadau diddorol iawn i'r disgyblion a hyrwyddo dwyieithrwydd disgyblion yn llwyddiannus;
- mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd mewn gofal yn ardderchog;
- mae disgyblion sydd yn derbyn prydau ysgol am ddim yn cyflawni'n well mewn mwyafrif y dangosyddion pwysig nag ydynt mewn ysgolion cymharol;
- mae ansawdd yr addysgu yn gyson uchel ac mae ymddygiad ac ymagweddau disgyblion yn gadarnhaol iawn;
- mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae'r achosion o fwlio yn brin iawn; ac
- mae'n hyrwyddo ethos cynhwysol anghyffredin o uchel gyda disgyblion yn derbyn cefnogaeth gref iawn i sicrhau eu bod yn cyflawni i'w holl botensial.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- y pennaeth a'r uwch dim rheoli ymroddgar sydd yn cydweithio'n effeithiol i hybu safonau uchel y disgyblion;
- cynllunio pwrpasol gan reolwyr ar bob lefel i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda;
- tracio a monitro cynnydd disgyblion trylwyr, ac ymyrraeth effeithiol i herio tanberfformiad disgyblion ac athrawon mewn adrannau penodol;
- gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant trylwyr;
- mae'r cysylltiad uniongyrchol rhwng canfyddiadau hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol yn gryfder yn y broses gwella ansawdd;
- mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o farnau'r disgyblion er mwyn cynllunio gwella strategaethau dysgu ac addysgu ysgol gyfan; ac
- mae gan yr ysgol lywodraethwyr gweithgar sydd yn herio a chefnogi rheolwyr i gynnal a chodi safonau yn fedrus.

## Argymhellion

A1 Codi safonau Saesneg yng ngyfnod allweddol 4 a safonau bechgyn ar draws yr ysgol

A2 Parhau i wella presenoldeb

A3 Parhau i godi ansawdd asesu ac ymateb disgyblion i sylwadau athrawon er mwyn hybu safonau uchel

A4 Parhau i ddatblygu medrau hunanasesu a chynllunio ar gyfer gwelliant arweinwyr canol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd sy'n cynnwys pump TGAU gradd A*-C neu hafal, yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2011 a 2012, roedd yr ysgol yn y 50% is, ond yn 2013 mae perfformiad yr ysgol ymhlith y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn 2013, mae'r dangosydd sydd yn cyfateb i bump neu fwy o gymwysterau TGAU gradd A*-C, hefyd yn uwch na'r cyfartaledd o gymharu ag ysgolion tebyg ac wedi codi ers 2011, er bod gostyngiad yn 2012. Rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn well na'r disgwyl yn y dangosyddion sydd yn cynnwys ystod eang o gymwysterau.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad disgyblion mewn mathemateg, Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a gwyddoniaeth wedi'u cyfuno dros y tair blynedd diwethaf wedi gwella ac yn 2013 yn gosod yr ysgol ymhlith y 50% uchaf. Mae cyflawniadau ar lefel 6 neu uwch mewn llawer o'r pynciau hefyd ymhlith y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 3 wedi bod yn is neu'n agos at gyfartaledd y sir a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan ers 2011.

Mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched yn y dangosyddion allweddol yn 2013 yn well nag ydyw mewn ysgolion tebyg eraill. Mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sydd yn derbyn prydau ysgol am ddim a'r gweddill ym mron pob un o'r prif ddangosyddion hefyd yn well na'r cyfartaledd o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae bron pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da a disgyblion abl a thalentog yn cyflawni yn ôl eu gallu a'u cymhelliant. Mae disgyblion mewn gofal yn gwneud cynnydd arbennig o dda.

Mae ymagwedd disgyblion o fewn bron pob un o'u gwersi yn gadarnhaol ac yn adlewyrchu cymhelliant amlwg i weithio. Mewn llawer o'r gwersi, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd clir wrth ddatblygu gwybodaeth a chysyniadau newydd o fewn eu pynciau.

Mae medrau darllen llawer o'r disgyblion yn dda yn y ddwy iaith ac yn eu galluogi i gael mynediad i'r cwricwlwm ac i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o fewn eu pynciau. Mae bron bob un disgybl yn gwrando'n astud ar yr athro ac yn cyfrannu'n briodol wrth ateb cwestiynau a thrafod eu gwaith gyda'u cyfoedion. Maent yn defnyddio medrau rhyngberthnasol arbennig o effeithiol. Mae'r mwyafrif yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae eu medrau dwyieithog yn dda.

Mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig ac yn effeithiol mewn ystod eang o ffurfiau, gan gynnwys gwaith creadigol, cofnodi gwaith ymchwil trwy nodiadau, a datrys problemau. Mae llawer o'r disgyblion yn ymchwilio yn drylwyr i ffynonellau ac

yn trefnu eu gwaith yn briodol. Maent yn meddu ar ddealltwriaeth dda o gonfensiynau gramadegol ac mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso eu dealltwriaeth i gyd-destunau ehangach yn dda. Maent yn cymhwyso rheolau gramadegol ac atalnodi'n gywir yn y Gymraeg, ond gwna ychydig o'r disgyblion ormod o wallau sylfaenol wrth ysgrifennu yn Saesneg.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn briodol o fewn ystod addas o bynciau. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu casglu, trefnu a dehongli data yn effeithiol. Maent yn ymateb yn dda i'r gofynion mathemategol a wneir yn y pwnc trwy, er enghraifft, gynhyrchu graddfeydd synhwyrol a phlotio graffiau'n gywir.

Mae llawer o'r disgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio ystod o strategaethau gan gynnwys dulliau pen, dulliau ysgrifenedig a defnyddio cyfrifiannell. Maent yn cydweithio'n dda i ddatrys problemau ac yn cymhwyso eu dysgu blaenorol yn effeithiol, wrth weithio gydag adio, tynnu a lluosi termau algebra, a defnyddio gwerthoedd positif a negatif.

Mae'r disgyblion sydd yn mynychu rhaglenni ymyrraeth i hybu eu medrau rhifedd a llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3 yn gwneud cynnydd da iawn. Maent yn elwa o gefnogaeth gyson ac effeithiol disgyblion y chweched ddosbarth.

Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol drwy gydweithio'n gynhyrchiol â'u cyfoedion. Yng nghyfnod allweddol 4, mae llawer o'r disgyblion yn dadansoddi arwyddocâd geiriau allweddol o fewn cwestiynau arholiad yn fedrus ac yn dysgu sut i strwythuro atebion arholiad yn gywir. Defnyddiant gyfleoedd i ddefnyddio dysgu blaenorol yn dda wrth ddatrys problemau ac wrth ymateb i ofynion asesu'r byrddau arholi.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn meddu ar y medrau i'w paratoi ar gyfer bywyd tu hwnt i'r ysgol. Mae pob disgybl a adawodd yr ysgol yn 2012 a 2013 mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant.

**Lles: Da**

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn credu bod yr ysgol yn delio'n effeithiol gydag unrhyw achosion prin o fwlian a bod hyn yn gryfder mawr. Dengys rhan fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth drwyadl o fanteision cadw'n heini a bwyta'n iach. Mae mwyafrif yn cymryd rhan mewn gweithgareddau i hybu ffitrwydd o fewn cynllun 5 x 60 a chwaraeon mewn gwersi neu yn allgyrsiol.

Mae'r disgyblion i gyd yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda iawn. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, ni chafwyd gwaharddiadau parhaol ac mae gwaharddiadau dros dro wedi gostwng yn sylweddol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd eu gwersi yn brydlon. Mae canrannau presenoldeb yn yr ysgol wedi gwella yn gyson dros y chwe blynedd diwethaf. Er hyn, mae'r ysgol wedi bod yn gyson yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim, ac yn 2013 mae cyfraddau presenoldeb disgyblion ymhlith y 25% isaf. Mae data ysgol sydd heb ei

ddilysu yn dangos bod cynnydd sylweddol mewn presenoldeb disgyblion eleni o gymharu â'r cyfnod cyffelyb y llynedd.

Mae cyngor yr ysgol wedi cael dylanwad allweddol ar drefniadaeth yr ysgol gan gynnwys trafod blaenoriaethau a pholisïau ysgol gyfan a chymryd rhan mewn hunanarfarnu ysgol gyfan. Mae dau ddisgybl yn aelodau o'r corff llywodraethol ac yn gwneud cyfraniad pwysig, gan gynnwys mynegi barn ar adnoddau dysgu ac addysgu, a syniadau ar welliannau i'r safle ar gyfer disgyblion.

Gwna llawer o'r disgyblion gyfraniad amlwg iawn at raglen gyfoethog o weithgareddau diwylliannol o fewn cymuned yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn cefnogi disgyblion iau sydd ar raglenni ymyrraeth mewn llythrennedd a rhifedd yn effeithiol iawn. Maent hefyd yn atgyfnerthu trefniadau trosglwyddo disgyblion o'r ysgolion cynradd ac yn hwyluso anwytho'r disgyblion hyn yn effeithiol iawn.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion statudol. Ers diwygio trefniadau cyflwyno'r cwricwlwm yn ddiweddar, mae gan y disgyblion mwy o gyfleoedd i ddisgyblion astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Yng nghyfnod allweddol 4, mae ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol sy'n diwallu dymuniadau disgyblion a'r gymuned. Mae gan yr ysgol bartneriaethau cynhwysfawr a buddiol gydag ysgolion a cholegau er mwyn ymestyn amrediad y profiadau ar gyfer disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion gymhwyso ar gyfer Bagloriaeth Cymru yng nghyfnodau allweddol 4 a 5. Mae'r ysgol yn darparu profiadau gwerthfawr iawn i rai disgyblion sydd mewn perygl o ddieithrio ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau'r disgyblion.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd ar draws y pynciau yn nodwedd gref. Yn dilyn awdit manwl, darperir tasgau addas gan adrannau ac mae'r ysgol yn monitro ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd yn hynod briodol. Darparwyd adnoddau gwerthfawr i rieni ac athrawon. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos ac yn llwyddiannus gyda'u hysgolion cynradd partner i gydgynllunio strategaethau ac arferion gorau. Mae'r trefniadau ymyrraeth llythrennedd a rhifedd o ansawdd uchel ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion penodol. Digonol yw'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion cyfnodau allweddol 4 a 5 sicrhau cymwysterau sgiliau hanfodol Cymru ar y lefel briodol i bob unigolyn.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda iawn i flaenoriaeth genedlaethol o greu Cymru hyfedr ddwyieithog tros y tair blynedd diwethaf trwy sicrhau dilyniant a pharhad i'r disgyblion yn y Gymraeg o fewn pynciau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang yn gyson dda.

**Addysgu: Da**

Mae gwybodaeth bynciol yr athrawon yn nodwedd gref, ac mae llawer ohonynt yn sicrhau bod y dysgu a'r addysgu yn ymateb yn effeithiol i anghenion pob disgybl. Mewn ychydig iawn o wersi, mae athrawon yn paratoi'n rhagorol trwy gynllunio manwl a dychmygus. Mewn llawer o wersi, mae'r athrawon yn gosod disgwyliadau uchel ar bob unigolyn i lwyddo hyd ei eithaf. Yn y gwersi hyn, mae paratoi effeithiol a defnydd creadigol o amrediad o adnoddau pwrpasol yn amlwg, ynghyd â defnydd llwyddiannus o offer ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Nodwedd arbennig yw'r modd y mae ychydig o athrawon yn defnyddio disgyblion mwy abl a thalentog fel mentoriaid o fewn y grŵp dysgu. Mewn llawer o wersi mae cyflymder addas i'r wers ac amser priodol ar gyfer myfyrio. Mewn llawer o wersi mae strategaethau effeithiol i herio dealltwriaeth a medrau meddwl disgyblion yn amlwg ynghyd â dysgu dwyieithog effeithiol. Ym mron pob un o'r gwersi, mae perthynas adeiladol rhwng yr athrawon a'r disgyblion.

Mewn ychydig o wersi, nid yw cynllunio'r athrawon yn arwain at dasgau diddorol, gyda lefel her briodol i ddisgyblion. Yn ogystal, mae cyflymder ychydig o'r gwersi yn rhy araf.

Mae adborth llafar sensitif ac adeiladol gan yr athrawon i 'r disgyblion yn amlwg mewn llawer o wersi. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd, gydag enghreifftiau o dargedau cynnydd addas i'r disgyblion ar sut i wella eu gwaith. Fodd bynnag, mae ansawdd y marcio ar draws yr adrannau yn anwastad.

Mae gan yr ysgol gyfundrefn gynhwysfawr a llwyddiannus i dracio cynnydd disgyblion sydd yn darparu gwybodaeth werthfawr ar gynnydd disgyblion. Mae'n sicrhau bod y wybodaeth a gesglir yn esgor ar strategaethau effeithiol i gefnogi disgyblion. Mae'r penaethiaid cynnydd yn sicrhau bod ymyrraeth effeithiol i gefnogi disgyblion unigol.

Mae adrodd i rieni gan yr ysgol yn nodwedd gref. Mae rhieni yn derbyn adroddiad yn rheolaidd ar gynnydd, ymdrech a phresenoldeb. Mae ansawdd y rhan fwyaf o sylwadau pwnc yn uchel ac yn cynnwys targedau penodol i ddisgyblion weithio tuag atynt. Yn ogystal, ceir sylwadau gwerthfawr gan y tiwtor dosbarth. Nodwedd arbennig yw'r disgwyl sydd i'r disgyblion lunio sylwadau ar eu hadroddiad a'u trafod gyda'u tiwtor dosbarth.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn gynhwysfawr ac yn cyd-fynd a'r gofynion. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd da i drafod materion moesol a chymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol diddorol. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hybu bwyta ac yfed yn iach ac mae'n cydymffurfio ag arweiniad Llywodraeth Cymru "Blas am Oes".

Darperir gofal a chynhaliaeth o ansawdd uchel gan athrawon a rheolwyr bugeiliol. Gwelir effaith hyn yn y strategaeth ffyniannus maent yn gweithredu i wella presenoldeb disgyblion yn gynyddol. Mae rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau i

hybu addysg bersonol a chymdeithasol disgyblion. Mae’r ysgol yn darparu cyngor buddiol i ddisgyblion yn eu dewisiadau o gyrsiau neu yrfa.

Mae gan yr ysgol berthynas effeithiol gydag asiantaethau amlddisgyblaeth allanol i gefnogi a hybu iechyd, lles a datblygiad addysgol disgyblion yn llwyddiannus. Ceir cefnogaeth arbennig iawn gan yr ysgol i'r disgyblion sydd mewn gofal.

Mae ansawdd y ddarpariaeth a’r gefnogaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn un o gryfderau’r ysgol. Mae gan yr adran anghenion dysgu ychwanegol adnabyddiaeth fanwl o ddisgyblion penodol. Mae targedau a chynlluniau gweithredu unigol cynhwysfawr ar gael ac mae’r wybodaeth yn cael ei rannu yn dda gyda'r staff. Mae adolygiadau rheolaidd o’u cynnydd yn cynnwys mewnbwn gan rieni’r disgyblion unigol ac mae hyn yn cefnogi cynnydd addysgol yn effeithiol. Mae tîm profiadol o gymorthyddion dysgu yn cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn fedrus.

Nodwedd amlwg o fewn yr ysgol yw’r amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi disgyblion unigol i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus. Defnyddir disgyblion y chweched ddosbarth i gefnogi disgyblion iau yn effeithlon. Mae gan y darparwr bolisïau priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol ethos unigryw Cymreig. Mae’n gymuned gynhwysol a chynhaliol. Nodwedd amlwg o ragoriaeth yw'r ffordd mae’r ysgol yn gwerthfawrogi cefndiroedd a galluoedd gwahanol ddisgyblion ac yn hybu disgwyliadau uchel o fewn cymuned ofalgar. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y gofal mae disgyblion yn dangos am eu cyfoedion yn enwedig y rhai sydd ag anghenion penodol. Mae disgyblion mewn gofal yn derbyn cefnogaeth wych a chyson ym mhob agwedd o’u bywyd a’u gwaith.

Mae’r ysgol yn hybu agweddau goddefgar a safonau ymddygiad uchel, a thrwy hyn yn sicrhau bod disgyblion a staff yn rhydd o unrhyw aflonyddwch yn eu gwaith. Gwneir defnydd trawiadol o draddodiadau diwylliannol Cymreig o fewn y gymuned leol i gyfoethogi profiadau’r disgyblion. Hyrwydda'r ysgol gydraddoldeb hil a rhyw yn effeithiol ym mhob agwedd o’i gwaith ac mae'n herio stereoteipio'n llwyddiannus.

Nodwedd arall o ragoriaeth yw adeiladau newydd a thirwedd yr ysgol sydd yn ddeniadol tu hwnt. Mae prif adeiladau’r ysgol ynghyd â’r cyfleusterau ar gyfer chwaraeon o ansawdd gwych. Ceir arddangosfeydd atyniadol yn y dosbarthiadau a’r coridorau sydd yn creu ansawdd addysgol ysgogol iawn i’r disgyblion. Mae hyn yn hybu amgylchfyd dysgu cadarnhaol iawn Yn ogystal, mae tirwedd y safle wedi ei gynllunio’n gelfydd i gyflwyno ardaloedd deniadol iawn i’r disgyblion ymlacio yn ystod eu hegwyl. Mae’r adeilad a’r safle yn ddiogel, ac yn cael ei gadw’n lân a thaclus. Ceir ystod dda o gyfarpar gan gynnwys technoleg gwybodaeth i gefnogi dysgu ac addysgu o fewn adrannau.

Mae awyrgylch cynhwysol anghyffredin o uchel yn bodoli yn yr ysgol gyda disgyblion yn derbyn cefnogaeth gref iawn yn y dosbarth, neu drwy’r uned benodol, i sicrhau eu bod yn cyflawni i’w holl botensial.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinwyr yn cyflwyno cyfeiriad strategol clir trwy nodau, amcanion a pholisïau sydd yn canolbwyntio ar gwrdd ag anghenion disgyblion a chodi safonau. Mae'r staff i gyd yn rhannu'r weledigaeth o ysgol sydd yn anelu at sicrhau bod y disgyblion i gyd yn cyflawni eu potensial. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'r cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella yn yr ysgol, ynghyd â syniad clir o sut i fynd ati i sicrhau gwelliant.

Mae arweinyddiaeth gref y pennaeth ers 2010 wedi bod yn ffactor allweddol wrth i'r ysgol sicrhau gwelliant sylweddol yn ansawdd yr arweinyddiaeth a'r ddarpariaeth, disgwyliadau athrawon a disgyblion, deilliannau, ac ethos yr ysgol. Mae'r uwch arweinwyr eraill yn rhoi cefnogaeth dda iawn i'r pennaeth ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol. Mae gan yr ysgol strwythur staffio priodol ac mae rolau a chyfrifoldebau staff wedi eu cyflwyno'n glir.

Mae arweinwyr canol yn dangos ymrwymiad da i weledigaeth ac amcanion yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid adrannau yn arweinwyr effeithiol. Mae'r rheolwyr cynnydd newydd wedi dechrau gwneud cyfraniad pwysig tuag at wella safonau.

Mae system rheoli llinell yr ysgol yn briodol ac mae uwch arweinwyr yn herio arweinwyr canol yn effeithiol o ran deilliannau a darpariaeth eu hadrannau. Mae gan y rhan fwyaf o arweinwyr ddisgwyliadau uchel ac mae eu targedau ar gyfer cyflawniadau disgyblion yn briodol heriol.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd ar bob lefel sydd fel arfer yn rhoi pwyslais priodol ar safonau, dysgu ac addysgu. Mae arweinwyr yn cofnodi trafodaethau, ond nid yw cofnodion cyfarfodydd i gyd yn nodi pwyntiau gweithredu'n ddigon clir i hwyluso monitro effeithiol.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad priodol ac mae'r rhain yn cael eu gweithredu'n gyson. Mae cysylltiad clir rhwng targedau athrawon a blaenoriaethau'r ysgol ac adrannau.

Mae'r ysgol yn gwneud cynlluniau perthnasol i gwrdd â blaenoriaethau cenedlaethol fel datblygu medrau, llwybrau dysgu 14-19, trosglwyddo o'r ysgolion cynradd a datblygu dwyieithrwydd.

Mae llywodraethwyr yn deall eu rôl yn dda ac yn cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn yr ysgol. Mae'r corff llywodraethol yn sicrhau bod gofynion statudol yn cael eu bodloni ac yn gwneud cyfraniad priodol tuag at gyfeiriad strategol yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn herio arweinwyr yn effeithiol trwy gyfarfodydd a thrwy eu cysylltiadau ag adrannau unigol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol brosesau hunanarfarnu effeithiol sydd yn greiddiol i wella ansawdd. O ganlyniad, mae dealltwriaeth drwyadl gan yr uwch dîm arwain o gryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae adroddiad hunanarfarnu’r ysgol yn ddogfen gynhwysfawr a gonest sydd yn cynnig adolygiad llawn o holl agweddau bywyd yr ysgol. Yn ogystal, mae llawer o’r adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn adnabod cryfderau ac ardaloedd i wella yn glir.

Ers 2010, mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol wedi eu cryfhau. Bellach, mae’r uwch dîm arwain yn paratoi calendr o weithgareddau defnyddiol er mwyn casglu tystiolaeth uniongyrchol i arfarnu gwaith yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi data perfformiad yn fanwl gywir er mwyn gallu targedu gwelliant mewn dangosyddion pwysig. Mae llawer o’r arweinwyr canol yn gwneud defnydd da o ddata perfformiad, tra bod y lleiafrif yn gwneud dadansoddiad miniog o berfformiad disgyblion mewn cwestiynau arholiad er mwyn adnabod agweddau penodol i’w gwella .

Mae arweinwyr ar bob lefel yn arsylwi gwersi yn dymhorol ac yn llunio adroddiadau defnyddiol gydag argymhellion clir ar sut i wella. Agwedd gref o'r gwaith hwn yw’r ymyrraeth benodol ddilynol i helpu athrawon i wella. Mae cefnogaeth arbenigol yn cael ei darparu i ddatblygu nodweddion pwysig o'r addysgu, gyda chanlyniadau cadarnhaol.

Yn yr un modd, mae arweinwyr ar bob lefel yn craffu ar waith disgyblion er mwyn gwella ansawdd yr asesu a'r marcio. Maent yn rhannu eu canfyddiadau drwy greu adroddiadau buddiol i rannu arferion da ac i amlygu agweddau cyffredin i’w gwella.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o farnau’r disgyblion er mwyn cynllunio ar gyfer gwella strategaethau dysgu ac addysgu ysgol gyfan. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o’r adrannau sy’n gwneud defnydd buddiol o ganfasio barn y disgyblion.

Mae’r cysylltiad uniongyrchol rhwng canfyddiadau hunanarfarnu a blaenoriaethau’r cynllun gwella ysgol yn gryfder yn y broses o wella ansawdd. Mae’r cynllun gwella ysgol yn ddogfen ddefnyddiol sy’n cynnwys targedau uchelgeisiol, camau gweithredu clir, terfynau amser, costau a chyfrifoldebau. Yn yr un modd, mae llawer o'r cynlluniau gwella adrannol yn ddogfennau gwerthfawr i hyrwyddo gwelliant.

Agwedd arbennig o wella ansawdd yn yr ysgol yw'r prosesau monitro manwl gywir a chyson o waith bob adran gan ddau aelod o'r uwch dim arwain.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol yn cydweithio’n effeithiol ag ystod o bartneriaid er mwyn ehangu a chyfoethogi ei darpariaeth. Mae’r ysgol yn cyfathrebu’n dda â’r rhieni. Er enghraifft, mae rhieni yn derbyn gwybodaeth berthnasol yn rheolaidd ac yn cael cyfleoedd priodol i ymweld â’r ysgol, trafod cynnydd eu plant a darpariaeth yr ysgol, a chynnig awgrymiadau.

Trwy ei phartneriaeth strategol gynhyrchiol gyda sefydliadau addysgol eraill yn yr ardal, mae’r ysgol yn llwyddo i gynnig ystod briodol o gyrsiau ar gyfer disgyblion

cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae trefniadau priodol yn eu lle i fonitro ansawdd y cyrsiau a'r addysgu sydd yn digwydd ar safleoedd eraill ac i sicrhau cost effeithiolrwydd.

Mae cydweithio effeithiol gyda'r 16 ysgol gynradd partner yn sicrhau bod disgyblion yn setlo'n gyflym ar ddechrau Blwyddyn 7. Mae'r cynllunio ar y cyd gydag ysgolion cynradd trwy bartneriaeth ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd disgyblion wrth drosglwyddo o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 yn gryfder penodol.

Mae cysylltiadau da gyda chyflogwyr, clybiau a grwpiau penodol yn y gymuned leol yn gwneud cyfraniad effeithiol tuag at ehangu profiadau disgyblion. Sefydlwyd partneriaethau buddiol hefyd gyda dwy brifysgol i ganiatáu i fyfyrwyr sydd yn dilyn cyrsiau hyfforddiant i athrawon gyflawni eu hymarfer dysgu yn yr ysgol.

Mae'r partneriaethau hyn yn gwneud cyfraniad gwerthfawr tuag at safonau a lles disgyblion.

### Rheoli adnoddau: Da

Mae'r ysgol yn rheoli adnoddau yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol ac mae rheolwyr yn gwneud defnydd da o arbenigedd a phrofiad yr athrawon. Yn ogystal, mae'r ysgol yn cyflogi ystod briodol o staff i gefnogi'r athrawon a'r disgyblion.

Defnyddir grant amddifadedd yn effeithiol iawn gan athrawon i alluogi disgyblion unigol i wneud cynnydd arbennig. Cyflwynir cyfleoedd eang i staff ar bob lefel ddatblygu'n broffesiynol. Mae'r diwylliant o gydweithio yn arwain at rannu arferion da yn llwyddiannus ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu gref. Yn ogystal, mae nifer o athrawon yn chwarae rhan flaenllaw mewn rhwydweithiau proffesiynol ar draws yr awdurdod lleol ac yn genedlaethol, er enghraifft i godi safonau llythrennedd a rhifedd. Fe geir cyfleoedd gwerthfawr i athrawon ar bob lefel i ddatblygu eu medrau arwain.

Mae'r pennaeth, y rheolwr busnes ac is-bwyllgor cyllid y corff llywodraethol yn rheoli materion cyllidol yr ysgol yn effeithiol iawn. Gwelir pwyslais clir ar fonitro ansawdd y gwariant er mwyn codi safonau a gwella dysgu ac addysgu disgyblion o bob ystod gallu.

Yn sgil safonau da, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 4 yn 2013, mae perfformiad disgyblion wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf gyda thueddiad o gynnydd yn y canran o'r disgyblion sydd yn cyflawni yn y prif ddangosyddion. Mae perfformiad disgyblion yn y dangosydd trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi codi o fod yn yr hanner is yn 2011 a 2012 i fod yn yr hanner uchaf yn 2013 o gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae'r dangosydd pynciau craidd a throthwy lefel 2 wedi gwella hefyd ers 2011 ac yn gosod yr ysgol ymhlith yr hanner uchaf yn y teulu yn 2013. Mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd cyfanswm sgôr pwyntiau wedi'i chapio, yn agos at gyfartaledd ysgolion y teulu yn 2013 ond mae wedi bod yn y chwarter neu'r hanner isaf ers 2011 o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad disgyblion yn y trothwy lefel 1 wedi bod yn gyson dda ers 2011 ac yn y 50% uwch neu'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. O ran gwerth ychwanegol cyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 4, mae perfformiad disgyblion yn dda ac yn gyffredinol well na'r disgwyl yn y mwyafrif o'r dangosyddion pwysig.

Yn y pynciau craidd unigol, mae canran uwch o ddisgyblion yn astudio Cymraeg iaith gyntaf ers 2011. Mae perfformiad yn y Gymraeg fel iaith gyntaf ar lefel 2 wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu ers 2011, ond yn 2013 roedd yn yr hanner is o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn lefel 2 Saesneg wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf. Er hyn, mae wedi bod yn y chwarter is o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i ginio am ddim ers 2009. Yn y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 2 yn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn yr hanner uwch o gymharu ag ysgolion y teulu. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth ar lefel 2 wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn yr hanner uwch o gymharu ag ysgolion tebyg yn 2013.

Ers 2010, nid oes yr un disgybl wedi methu ennill cymhwyster cydnabyddedig, ac mae bron pob disgybl yn aros mewn addysg, gyflogaeth neu hyfforddiant amser llawn ar ôl blwyddyn 11. Mae hyn yn well na'r cyfartaledd sirol a chyfartaledd cenedlaethol. Mae canlyniadau cyrsiau galwedigaethol yn dda dros y tair blynedd diwethaf. Enillodd canran uchel o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 y Fagloriaeth ar Lefel 1 neu 2 yn 2013.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu'n uwch yn y dangosydd pynciau craidd wedi codi dros y tair blynedd diwethaf. Yn ystod y cyfnod hwn, mae perfformiad disgyblion wedi codi o fod ymysg yr hanner is o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim yn 2011, i'r hanner uwch yn 2013.

Ym mhob pwnc craidd unigol, mae perfformiad disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig, sef 5 neu'n uwch, wedi codi dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2013, mae Cymraeg a mathemateg ymhlith yr hanner uwch, a gwyddoniaeth ymhlith y

chwarter uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg ond mae Saesneg ymhlith y hanner isaf ers 2009.

Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefelau uwch, lefel 6 neu'n uwch, yn y pynciau craidd unigol wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2011, roedd Cymraeg, Saesneg a mathemateg yn yr hanner is, a gwyddoniaeth yn y chwarter isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Erbyn 2013, mae Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth yn y chwarter uchaf o gymharu â chanrannau'r teulu ond mae mathemateg yn y parhau yn y hanner is.

Mae perfformiad bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 3 a 4 wedi amrywio dros y blynyddoedd. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched yn y dangosydd pynciau craidd wedi lleihau ers 2011. Er hyn, mae'r gwahaniaeth yn 2013 yn fwy na'r teulu gyda bechgyn yn tanberfformio yn arbennig mewn ysgrifennu Saesneg. Yng nghyfnod allweddol 4 mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched yn y Trothwy L2+a'r trothwy Lefel 2 wedi lleihau ers 2011 ac, yn 2013, mae'n well na'r teulu. Er hyn, mae bechgyn yn tanberfformio mewn Saesneg.

Mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sydd yn derbyn prydau ysgol am ddim a'r gweddill yn y prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 3 yn llai na'r teulu yn y mwyafrif o'r dangosyddion pwysig. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim a'r gweddill yn y prif ddangosyddion yn llai na'r teulu, ac eithrio'r dangosydd trothwy lefel 2 ble mae'n fwy na'r teulu. Mae perfformiad disgyblion mewn gofal yn arbennig o dda.

Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 3 wedi bod yn is neu'n agos at gyfartaledd y sir a chyfartaledd Cymru ers 2011. Yn 2013, roedd canran uchel o'r disgyblion a oedd yn astudio'r Fagloriaeth yn y chweched ddosbarth wedi llwyddo.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school | 146 | 97 | 49 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 66% | 34% | 0% | 0% | |
| | | 43% | 52% | 3% | 1% | |
| The school deals well with any bullying | 146 | 80 | 61 | 5 | 0 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 55% | 42% | 3% | 0% | |
| | | 26% | 58% | 14% | 2% | |
| I have someone to talk to if I am worried | 146 | 88 | 56 | 2 | 0 | Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni. |
| | | 60% | 38% | 1% | 0% | |
| | | 38% | 53% | 8% | 1% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 146 | 43 | 88 | 14 | 1 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 29% | 60% | 10% | 1% | |
| | | 23% | 57% | 17% | 3% | |
| There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise | 144 | 64 | 68 | 9 | 3 | Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 44% | 47% | 6% | 2% | |
| | | 45% | 45% | 8% | 2% | |
| I am doing well at school | 145 | 53 | 85 | 7 | 0 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 37% | 59% | 5% | 0% | |
| | | 32% | 62% | 5% | 1% | |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems | 145 | 79 | 65 | 0 | 1 | Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| | | 54% | 45% | 0% | 1% | |
| | | 38% | 55% | 6% | 1% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school | 145 | 38 | 85 | 21 | 1 | Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 26% | 59% | 14% | 1% | |
| | | 20% | 54% | 21% | 5% | |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work | 146 | 77 | 49 | 19 | 1 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 53% | 34% | 13% | 1% | |
| | | 45% | 46% | 7% | 1% | |
| Pupils behave well and I can get my work done | 146 | 36 | 89 | 21 | 0 | Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 25% | 61% | 14% | 0% | |
| | | 10% | 57% | 27% | 6% | |
| Staff treat all pupils fairly and with respect | 146 | 76 | 58 | 11 | 1 | Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. |
| | | 52% | 40% | 8% | 1% | |
| | | 29% | 50% | 17% | 4% | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| The school listens to our views and makes changes we suggest | 145 | 68<br>47% | 67<br>46% | 10<br>7% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni'n eu hawgrymu. |
| | | 16% | 54% | 25% | 5% | |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility | 146 | 74<br>51% | 70<br>48% | 2<br>1% | 0<br>0% | Rwy'n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| | | 34% | 60% | 5% | 1% | |
| The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life | 143 | 73<br>51% | 65<br>45% | 4<br>3% | 1<br>1% | Mae'r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| | | 36% | 54% | 8% | 1% | |
| The staff respect me and my background | 146 | 87<br>60% | 58<br>40% | 1<br>1% | 0<br>0% | Mae'r staff yn fy mharchu i a'm cefndir. |
| | | 37% | 54% | 7% | 2% | |
| The school helps me to understand and respect people from other backgrounds | 141 | 80<br>57% | 58<br>41% | 3<br>2% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| | | 36% | 56% | 7% | 1% | |
| Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4 | 43 | 15<br>35% | 24<br>56% | 4<br>9% | 0<br>0% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. |
| | | 28% | 52% | 15% | 5% | |
| Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form | 37 | 18<br>49% | 16<br>43% | 3<br>8% | 0<br>0% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |
| | | 28% | 50% | 16% | 6% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 118 | 73 | 43 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| | | 43% | 51% | 4% | 1% | | |
| My child likes this school. | 118 | 69 | 44 | 3 | 1 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 58% | 37% | 3% | 1% | | |
| | | 46% | 48% | 4% | 1% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 117 | 68 | 45 | 3 | 1 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 58% | 38% | 3% | 1% | | |
| | | 49% | 45% | 3% | 1% | | |
| My child is making good progress at school. | 117 | 72 | 40 | 5 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 62% | 34% | 4% | 0% | | |
| | | 45% | 48% | 4% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 118 | 37 | 67 | 3 | 1 | 10 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 31% | 57% | 3% | 1% | | |
| | | 21% | 55% | 11% | 3% | | |
| Teaching is good. | 115 | 47 | 67 | 1 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 41% | 58% | 1% | 0% | | |
| | | 33% | 57% | 5% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 118 | 66 | 51 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 56% | 43% | 1% | 0% | | |
| | | 50% | 45% | 2% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 114 | 44 | 58 | 8 | 1 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 39% | 51% | 7% | 1% | | |
| | | 31% | 53% | 8% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 116 | 48 | 50 | 9 | 3 | 6 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 41% | 43% | 8% | 3% | | |
| | | 32% | 48% | 9% | 2% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 118 | 46 | 54 | 13 | 0 | 5 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 39% | 46% | 11% | 0% | | |
| | | 33% | 53% | 7% | 1% | | |
| My child is safe at school. | 118 | 60 | 55 | 3 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 51% | 47% | 3% | 0% | | |
| | | 41% | 52% | 3% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 111 | 43 | 38 | 7 | 3 | 20 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 39% | 34% | 6% | 3% | | |
| | | 32% | 46% | 7% | 2% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 116 | 45 | 50 | 16 | 1 | 4 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 39% | 43% | 14% | 1% | | |
| | | 34% | 50% | 11% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 118 | 68 | 41 | 2 | 2 | 5 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 58% | 35% | 2% | 2% | | |
| | | 41% | 48% | 7% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 115 | 44 | 57 | 3 | 2 | 9 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 38% | 50% | 3% | 2% | | |
| | | 27% | 51% | 10% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 117 | 52 | 54 | 2 | 2 | 7 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 44% | 46% | 2% | 2% | | |
| | | 36% | 53% | 5% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 115 | 38 | 51 | 4 | 2 | 20 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 33% | 44% | 3% | 2% | | |
| | | 26% | 46% | 8% | 2% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 116 | 44 | 63 | 9 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 38% | 54% | 8% | 0% | | |
| | | 35% | 50% | 9% | 2% | | |
| The school is well run. | 117 | 56 | 55 | 3 | 0 | 3 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 48% | 47% | 3% | 0% | | |
| | | 40% | 49% | 5% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Gareth Wyn Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Simon Davies | Arolygydd Tîm |
| Bethan Whittall | Arolygydd Tîm |
| Kevin Adams | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Catrin Taylor | Arolygydd Cymheiriaid |
| Elan Davies | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |